694-696

ENGLISH VERSION AT BOTTOM OF DOCUMENT

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Neuadd Lisburne Llanafan ar Nos Lun 1af Ebrill, 2019 am 7.30 y.h.

Presennol:

Cyng. A Davies (Cadeirydd)

Cyng. P. Bonner	**Cyng. Sh. Edwards**	**Cyng. A. Evans**
Cyng. H.M. Evans	**Cyng. J. George**	**Cyng. E. Lewis**
Cyng. C. Lloyd-Morgan	**Cyng. L.L. Owen**	
Cynghorydd Sir M. Davies		

Ymddiheuriadau
Cyng. P. Davies (Cydymdimlwyd gyda'r Cyng. Davies ar farwolaeth ei Dad yng Nghyfraith y diwrnod cynt)

1. Cyflwyniad Porth y Gymuned
Estynnwyd croeso i'r Cyfarfod i Dianne Williams a Sam Henly o Gyngor Sir Ceredigion a ymunwyd i roi cyflwyniad ar Wasanaeth Porth y Gymuned. Mae hwn yn Wasanaeth a redir gan y Cyngor Sir er mwyn cynghori a chynorthwyo unigolion bregus a theuluoedd o fewn y Gymuned ar wahanol feysydd o Iechyd a Lles, sut i dderbyn cyngor ariannol i ymuno a chlybiau cymdeithasol.

2. Eglwys Llanfihangel y Creuddyn
Estynnwyd croeso i Rhian Davies a Peter Garson i'r Cyfarfod ar ran Eglwys Llanfihangel-y-Creuddyn gan roi cyflwyniad i'r Aelodau o'r bwriad i wneud cais am grant i'r Gronfa Treftadaeth Genedlaethol ar gyfer gwaith o atgyweirio Twr yr Eglwys. Fel rhan o broses y cais am grant bydd angen llythyr cefnogaeth gan Gyngor Bro Trawsgoed a chymdeithasau eraill sy'n ymwneud â'r Eglwys. Cytunwyd y byddid yn cefnogi'r cais mewn egwyddor ac i'r Clerc baratoi llythyr o gefnogaeth ar ran y Cyngor Bro.

3. **Cofnodion y Cyfarfodydd Diwethaf**
Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod cyffredinol diwethaf, 18fed Chwefror, 2019 Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. Alun Evans ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan.

4. **Asesiad Risg ac Asedau**
Dim materion yn codi.

5. Materion angen sylw'r Cyngor Sir

(i) Goleuadau Stryd arfaethedig yn Llanafan: Y lamp stryd yn ei lle. Adroddodd y Clerc bod yna ychydig o broblem gyda'r lamp ble mae'n goleuo drwy'r nos yn hytrach nag yn diffodd ar amserydd am ychydig oriau ganol nos ac yna ail-oleuo cyn y wawr. Mae'r Contractwr yn ymwybodol. Tan y datrysir y broblem ni fydd Cyngor Sir Ceredigion yn fodlon mabwysiadu'r golau stryd.

(ii) **Draeniau angen sylw o fewn yr ardal**: Mae yna restr hir o ddraeniau angen sylw o fewn yr ardal gyda'r Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir at y materion ynghyd ag annog y Cyngor Sir i lenwi tyllau yn ffyrdd yr ardal.

(iii) **Materion angen sylw gan y Cyngor Sir o ran y ffyrdd:** Trafodwyd nifer o faterion sydd angen sylw gan y Cyngor Sir gyda'r Clerc i gysylltu ymhellach i ddilyn lan. Y Clerc i gadw rhestr hanesyddol gan gyfeirio at y materion ym mhob cyfarfod ond gan gadw eitemau newydd ar yr agenda.

(iv) **Llwybr Cyhoeddus Awel y Bryn:** Mae'r gwaith bellach wedi cwblhau ac adroddwyd i safon uchel iawn hefyd. Cytunwyd i'r Clerc ddanfon nodyn o werthfawrogiad i Swyddog o'r Cyngor Sir.

(v) Gobeithir bydd y ffordd heibio Capel Cynon i ben y rhiw am Lanfihangel-y-Creuddyn a Chnwch Coch yn cael ail-wynebu yn fuan.

(vi) Derbyniodd y Clerc ymateb llafar am yr angen am gais cynllunio ar leoli Caban Bugail. Pe byddai'r Caban at ddefnydd personol nid oes angen cais cynllunio ond pe byddai'r defnydd ar gyfer defnydd ariannol mae'n ofynnol i gyflwyno cais cynllunio.

(vii) **Adnewyddu Ffens:** Ymateb wedi derbyn gan Brifysgol Aberystwyth y byddid yn dwyn y sefyllfa i sylw Swyddog Diogelwch y Brifysgol.

(viii) **Coed angen sylw o fewn yr ardal:** Cwblhawyd y gwaith o dorri nol y Coed yng Nghwmrhydyfelin, ar y llaw dde wrth deithio o Lanafan tuag at y B4340. Cytunwyd i ddanfon llythyr o werthfawrogiad i Reolwr Ffarm Trawsgoed am sicrhau y cwblhawyd y gwaith o safon.

(ix) **Ail-wynebu ffyrdd**: Mae'r gwaith o ail-wynebu'r ffordd tu ôl i Dafarn y Gors wedi'u gwblhau bellach.

(x) O ran y sticil bren yn Cnwch Coch ymholwyd a fyddai modd rhoi ffens yn unig gan fod llidiart 10 llath i ffwrdd. Y Clerc i wneud ymholiadau.

(xi) Ffordd heibio Dolgwybedin: cyflwr y ffordd yn wael gyda'r Swyddog o'r Cyngor Sir yn ymwybodol o'r sefyllfa.

(xii) Tyllai yn y ffordd rhwng Bont Tanllan a Thŷ Mawr, Llanfihangel-y-Creuddyn a hefyd ger Pantgwyn ger mynedfa i'r Goedwig yn parhau fod yn broblem. Adroddwyd i'r Cyngor Sir weithredu ar y twll dwfn yng nghanol Pentref Llanfihangel-y-Creuddyn.

(xiii) Dim ymateb i bryderon am ŵyl Tan ar y Mynydd yn Cnwch Coch.

(xiv) Er bod angen gwaith sylweddol ar arwynebedd y ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant nid oes disgwyl i'r gwaith cael ei wneud yn y dyfodol agos gan y Cyngor Sir ac mae'r ffordd o Gapel Cynon i Lanfihangel yn parhau gyda thyllau ynddi hefyd.

(xv) Mae'r drain uwchben Dolau Ceunant wedi gorlenwi unwaith yn rhagor gyda dwr yn rhedeg i mewn i eiddo preifat ynghyd a drain wedi cwympo ger Haulfan, Llanfihangel-y-Creuddyn.

(xvi) Dwr yn parhau i redeg i mewn i'r cae gyferbyn a Brynhyfryd, Cnwch Coch yn hytrach na rhedeg i ddrain islaw ar y ffordd.

(xvii) Problemau'r ffyrdd yn Llanafan. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ymholi beth yw'r sefyllfa am y materion a godwyd gyda'r Swyddog ar ymweliad safle o amgylch y pentref yn ddiweddar.

6. Materion Cyllidol

(i) Rhoddion: Trafodwyd llythyr am rodd ariannol tuag at Rali Ffermwyr Ifainc Ceredigion i'w gynnal yn Lledrod ym mis Mehefin. Gan fod aelodau o Glwb Ffermwyr Ifainc Lledrod yn byw yn ardal y Cyngor Bro cytunwyd ar rodd o £50.00 fel cyfraniad tuag at gostau'r Rali. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. L. Owen ac eiliwyd gan Cyng. A. Evans

(ii) **Archwilydd Mewnol:** Cytunwyd yn ffurfiol i ofyn i Hilary Matthews ymgymryd â'r gwaith Archwilydd Mewnol ar ran Cyngor Bro Trawsgoed.

(iii) **Anfonebau:**
Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:
Swyddfa Archwilio Cymru: Anfoneb am gwblhau Awdit Cyfrifon 2018/19, swm o £225.75. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. H. Evans ac eiliwyd gan Cyng. Sh. Edwards.
Cyfreithiwr ADVE, swm o £59.00 am gofrestri les Maes Chwarae Maes y Felin gyda'r Cofrestrydd Tir. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. P. Bonner.
Ystyried cais am nawdd ariannol wrth **Bwyllgor Cymdeithas Maes y Felin, Llanafan** am gyfraniad tuag at gostau yswirio'r maes chwarae. Cytunwyd ar daliad o £500.00 ble cynigiwyd y taliad gan Cyng. P. Bonner ac eiliwyd gan Cyng. H. Evans.

7. Unrhyw Fater Arall

(i) Bont wrth ymyl Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn. Adroddwyd bod angen ychydig o waith cynnal a chadw ar y bont troed wrth ymyl yr ysgol. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i wneud cais iddynt gwblhau'r gwaith.

(ii) Twll mawr wedi ymddangos wrth y groesffordd yn Mrynafan.

(iii) Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi gweithredu yn fuan ar broblem o rhychiau mawr wedi ymddangos ar ochr y ffordd rhwng Abermagwr a Thrawsgoed gan roddi polion du a gwyn yno.

(iv) Ystyriwyd lythyr wrth ddisgyblion Cyngor yr Ysgol, Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn yn gwneud cais i'r Cyngor Bro ddodi biniau sbwriel ym Mhentref Llanfihangel-y-Creuddyn. Adroddodd y Clerc pe byddai'r Cyngor Bro yn dymuno y byddai Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried rhoddi a gwaghau un bin sbwriel yn y pentref. Cytunwyd i wneud cais i'r Cyngor Sir yn y lle cyntaf am ddarpariaeth bin gan gydnabod llythyr y disgyblion.

(v) Yn dilyn cais i gael y glanhawr ffordd i ardal Cnwch Coch nifer o weithiau o fewn ychydig ddiwrnodau y Clerc i wneud ymholiadau i Gyngor Sir Ceredigion o beth fedrir gwneud am sefyllfa ble mae contractwr yn gadael sefyllfa'r ffordd mewn cyflwr peryglus o ran damweiniau potensial drwy bentref Cnwch Coch yn dilyn gwaith contractio o fewn yr ardal.

(vi) Dwr yn cronni gyfer Nanteos: Er nad yw'r ffordd ym mhlwyf y Cyngor Bro mae trigolion yr ardal yn defnyddio'r ffordd. Tynnir sylw'r Cyngor Sir fod dwr yn cronni ar y ffordd ger Nanteos

(vii) Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Bro Llanfarian yn dwyn sylw at bryder am y nifer o gerbydau sy'n parcio ym Mhentref y Gors gan annog Cyngor Bro Trawsgoed i ddatrys y sefyllfa. Cyfeiriodd y Clerc ei bod wedi ymateb gan nodi fod Cyngor Bro Trawsgoed wedi trafod y sefyllfa dros y blynyddoedd gan ddwyn y mater i sylw Awdurdodau perthnasol ar nifer o achlysuron.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf y Cyngor Bro ar Nos Lun 13eg Mai, 2019 am 7.30 y.h. yn Neuadd Lisburne Llanafan gan ddechrau gyda'r Cyfarfod Blynyddol.

Minutes of Trawsgoed Community Council held at Neuadd Lisburne Llanafan on Monday 1st April, 2019 at 7.30 p.m.

Present:

Cllr. A Davies (Chairman)
Cllr. P. Bonner **Cllr. Sh. Edwards** **Cllr. A. Evans**
Cllr. H.M. Evans **Cllr. J. George** **Cllr. E. Lewis**
Cllr. C. Lloyd-Morgan **Cllr. L.L. Owen**
County Councillor M. Davies

Apologies
Cllr. P. Davies (Condolences were expressed to Cllr Davies on the death of his Father in Law the previous day)

1. **Porth y Gymuned Presentation**
A warm welcome was extended to Dianne Williams and Sam Henly from Ceredigion County Council who attended the meeting to give a presentation on the Porth y Gymuned Service within Ceredigion County Council. This is a service run by the County Council to advise and assist vulnerable individuals and families within the Community on various areas from Health and Wellbeing, obtaining financial advice to joining social clubs.

2. Llanfihangel y Creuddyn Church
Rhian Davies and Peter Garson, on behalf of Llanfihangel-y-Creuddyn Church, were welcomed to the meeting and gave a presentation to Members on the proposal to apply for a grant to the National Heritage Fund for repairs to the Church Tower. As part of the grant application process a letter of support would be required from Trawsgoed Community Council and other organizations involved with the Church. It was agreed that the application would be supported in principle and for the Clerk to prepare a letter of support on behalf of the Community Council.

3. Minutes of previous Meeting
The minutes of the last general meeting, 18th February, 2019, were confirmed as a true record of the meeting which was proposed by Cllr. Alun Evans and seconded by Cllr. C. Lloyd-Morgan.

4. **Risk Assessment and Assets**
No matters arising.

5. **Matters requiring the attention of the County Council**

(i) **Proposed Street Lighting at Llanafan**: The street lamp is in place. The Clerk reported that there was a slight problem with the lamp where it is continually alight throughout the night rather than turning off on a timer for a few hours at midnight and then re-lighting before dawn. The Contractor is aware but until the problem is resolved, Ceredigion County Council will not adopt the street light.

(i) **Drains requiring attention within the area**: There is a long list of drains requiring attention within the area with the Clerk to draw the County Council's attention to the issues as well as encouraging the County Council to fill in holes in the area's roads.

(ii) **Matters requiring attention by the County Council in terms of the roads**: A number of matters were discussed that needed attention by the County Council with the Clerk to contact further to follow up. Clerk to keep historical list with reference to the issues at each meeting but with new items on the agenda.

(iii) **Awel y Bryn Public Footpath**: The work has now been completed and undertaken to a very high standard. It was agreed that the Clerk sends a letter of appreciation to the Officer involved within the County Council.

(iv) It is hoped that the road past Capel Cynon to the top of the hill for Llanfihangel-y-Creuddyn and Cnwch Coch will soon be resurfaced.

(v) The Clerk received an oral response regarding the need for a planning application for the location of a Shepherds Hut. If Huts are used for personal use then no planning application is required but if the use is for financial/commercial use it is necessary to submit a planning application.

(vi) Fence Refurbishment: A response was received from Aberystwyth University that the situation would be brought to the attention of the University's Safety Officer.

(vii) Trees requiring attention within the area: The work of cutting the trees at Cwmrhydyfelin, on the right hand side as they travelled from Llanafan towards the B4340 has been completed. It was agreed to send a letter of appreciation to the Trawsgoed Farm Manager for ensuring that the work had been undertaken and to a high standard.

(viii) Road resurfacing: The work of resurfacing the road behind Tafarn y Gors has now been completed.

(ix) In terms of the wooden stile in Cnwch Coch, the clerk to make enquires whether it would be possible to replace the fence only as there was a gate 10 yards away.

(x) Road past Dolgwybedin: the condition of the road is extremely poor with Officers from the County Council being aware of the situation.

(xi) Pot holes in the road between Pont Tanllan and Ty Mawr, Llanfihangel-y-Creuddyn and also near Pantgwyn near the entrance to the Forest remains a problem. It was reported that the County Council had filled in the deep hole in the centre of Llanfihangel-y-Creuddyn Village.

(xii) No response received to the concerns about the Fire in the Mountain festival at Cnwch Coch.

(xiii) Although the road area from Llanfihangel-y-Creuddyn to Trisant requires substantial work, it is not expected that the work will be carried out in the near future by the County Council and the road from Capel Cynon to Llanfihangel continues to have deep pot holes that require attention.

(xiv) The drains above Dolau Ceunant have once again overflowed with water running into private property together with a collapsed drain collapsed near Haulfan, Llanfihangel-y-Creuddyn.

(xv) Water continues to run into the field opposite Brynhyfryd, Cnwch Coch rather than running to the drain below on the road.

(xvi) Problems with the roads in Llanafan. The Clerk to contact the County Council to inquire about the situation regarding the issues raised with the Officer during a recent site visit around the village.

Financial Matters

(i) Donations: A request for financial donation towards the Ceredigion Young Farmers Rally, to be held in Lledrod in June was discussed. As some members of the Lledrod Young Farmers Club live in the Community Council area a donation of £50.00 was agreed as a contribution towards the costs of the Rally. The payment proposed by Cllr. L. Owen and seconded by Cllr. A. Evans

(i) **Internal Auditor**: It was formally agreed to ask Hilary Matthews to undertake the Internal Auditor work on behalf of Trawsgoed Community Council.

(ii) Invoices:
It was agreed to pay the following invoices:
Wales Audit Office: Invoice for completion of the 2018/19 Audit of Accounts, £225.75. Payment proposed by Cllr. H. Evans and seconded by Cllr. Sh. Edwards.
ADVE Solicitor, sum of £59.00 for Maes y Felin Playground registering with the Land Registry. Payment proposed by Cllr. C. Lloyd-Morgan and seconded by Cllr. P. Bonner.
To consider an application for financial assistance from the Maes y Felin Association Committee, Llanafan for a contribution towards the cost of insurance for the playground. A payment of £500.00 was agreed which was proposed by Cllr. P. Bonner and seconded by Cllr. H. Evans.

6. **Any Other Business**

(i) Bridge near Llanfihangel-y-Creuddyn School. It was reported that the footbridge near the school needed some maintenance. The Clerk to contact the County Council to request them to complete the work.

(ii) A large pot hole appeared at the crossroads at Brynafan.

(iii) It was reported that the County Council had acted urgently on the problem of large grooves appearing on the side of the road between Abermagwr and Trawsgoed by placing black and white chevrons there.

(iv) Consideration was given to a letter from members of the School Council of Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn asking the Community Council to consider placing litter bins in Llanfihangel-y-Creuddyn Village. The Clerk reported that if the Community Council wished, Ceredigion County Council would consider placing and emptying one litter bin in the village. It was agreed to ask the County Council in the first instance to provide a bin as well as acknowledging the pupils' letter.

(v) Following a request to have the road sweeper to the Cnwch Coch area several times within a few days the Clerk to make inquiries to Ceredigion County Council as to what can be done for a situation where a contractor leaves the road in a dangerous condition with potential accidents through the village of Cnwch Coch following contractual work within the area.

(vi) Water accumulating near Nanteos: Although the location is not in the ward, residents of the Community Council do use the road. The County Council's attention is drawn to the fact that water is accumulating on the road near Nanteos

(vii) Correspondence was received from Llanfarian Community Council drawing attention to concerns regarding the number of vehicles parking in the village of New Cross and encouraging Trawsgoed Community Council to resolve the situation. The Clerk referred to her response and noted that Trawsgoed Community Council had discussed the situation over the years and brought the matter to the attention of relevant Authorities on a number of occasions.

Date of Next Meeting

The next meeting of the Community Council is to be held on the 13th May, 2019 at 7.30 p.m. at Neuadd Lisburne, Llanafan commencing with the AGM.